

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hoffai Llywodraeth Cymru wahodd eich cwmni i gyd-arddangos â ni yn

Gulfood, Dubai

15-19 Mawrth 2027

PAM GULFOOD 2027?

Gulfood yw arddangosfa fasnach flynyddol bwyd a diod fwyaf y byd, gyda chyfle rhwydweithio heb ei ail yn rhoi mynediad i gyflenwyr, partneriaid ac arweinwyr diwydiant rhyngwladol.

Am y tro cyntaf, bydd Gulfood yn cael ei gynnal mewn dau leoliad eiconig, Canolfan Masnach y Byd Dubai a Dubai Expo City. Gyda thros 8,500 o arddangoswyr yn arddangos mwy na 1.5miliwn o wahanol gynnyrch, mae pob sector bwyd a diod yn cael ei gynrychioli yn llawn. Mae 2027 yn rhoi'r cyfle i chi arddangos eich cynnyrch o flaen 195 o wledydd ac archwilio cyfleoedd ym marchnadoedd allforio y Dwyrain Canol ac yn fyd-eang.

Drwy gymryd rhan bydd eich busnes yn elwa ar:

- Dull cost-effeithiol o ymweld â'r farchnad ac arddangos eich cwmni
- Cael presenoldeb naill ai yn y Neuadd Ryngwladol yn Dubai Expo City neu'r Neuadd Laeth yng Nghanolfan Masnach y Byd Dubai
- Rhwydweithio a siarad â busnesau a gwneuthurwyr penderfyniadau blaenllaw yn y farchnad
- Rhannu profiadau a gwybodaeth â chyfranogwyr eraill
- Mynd i ddigwyddiadau rhwydweithio
- Cael eich cynnwys mewn unrhyw ddeunydd marchnata

Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael felly archebwch yn gynnar i osgoi siom ac i sicrhau nad ydych yn cael unrhyw gosbau am daliadau hwyr.

Dyddiad cau: 28 Hydref 2026

Gulfood, Dubai

15-19 Mawrth 2027

Y GOST

Mae stondinau gan 'Bwyd a Diod Cymru' yn y Neuadd Ryngwladol, sydd wedi'i lleoli yn Dubai Expo City ac yn y Neuadd Laeth, sydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Masnach y Byd Dubai.

Mae Llywodraeth Cymru wedi helpu â chost arddangos – gweler cost yr opsiynau â chymorth isod, yn seiliedig ar stondin 4 metr sgwâr:

Mae angen blaendal na ellir ei ad-dalu o £1,000.00 ar bob archeb ar ôl gwneud cais.

Pecyn A – Arddangos ar Stondin Lawn
Cost – £5,500.00 ynghyd â TAW yn cynnwys:

- Tocynnau hedfan dwyffordd a 5 noson o lety a brecwast i 2 person
- Mae gofod ychwanegol yn costio £1,000.00 y fetr sgwâr
- Gofod arddangos ar stondin Cymru Wales
- Paneli graffig sylfaenol a chelfi
- Gwybodaeth amdanoch yn nhaflen wybodaeth y sioe ac mewn deunyddiau marchnata
- Pas arddangoswr i'r sioe
- Cymorth ar y safle gan Lywodraeth Cymru a chontractwyr penodol
- Gwahoddiadau i dderbyniadau rhwydweithio

Dalier sylw: bydd arddangoswyr yn gyfrifol am drefnu eu nwyddau eu hunain.

Os hoffech drefnu eich hediad eich hun ar eich costau eich hun, gallwn gynnig y pecyn uchod i chi am gyfradd ostyngedig o £4,000 .

Pecyn B – Ymweliad Allforio
Cost – £1,500.00 ynghyd â TAW yn cynnwys:

- Tocynnau hedfan dwyffordd a 5 noson o lety a brecwast i 1 person
- Gwybodaeth amdanoch mewn deunyddiau marchnata
- Gwahoddiadau i dderbyniadau rhwydweithio
- Pàs arddangoswr i'r sioe

Ers 18 Mehefin 2026, nid yw Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu Llywodraeth y DU (FCDO) bellach yn cynghori yn erbyn teithio i'r Emiradau Arabaidd Unedig, fodd bynnag, mae'r sefyllfa ddiogelwch yn parhau i gael ei monitro'n agos. Gallwch weld y cyngor hwn yma: United Arab Emirates travel advice – gov.uk.

- Os bydd amgylchiadau'n newid, neu os yw'r FCDO yn adfer cyfyngiadau teithio, gellir canslo'r digwyddiad a/neu'r Daith Fasnach ar fyr rybudd. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn yn gweithio gyda Threfnwyr y Sioe, ein Asiant Teithio ac ymgeiswyr i benderfynu ar yr ateb gorau sydd ar gael i gefnogi pob ymgeisydd o dan yr amgylchiadau ar y pryd.

E-bostiwch am ffurflen gais neu ragor o wybodaeth:
shirley.mcgilvray@llyw.cymru neu kelly.divry@llyw.cymru

OGL WG55376
© Hawlfraint y Goron 2026